# DINAS A SIR ABERTAWE

## COFNODION CYFARFOD Y PWYLLGOR TRWYDDEDU CYFFREDINOL

## A GYNHALIWYD YN SIAMBR Y CYNGOR, NEUADD Y DDINAS, ABERTAWE DYDD GWENER, 10 MAWRTH 2017 AM 10.00 AM

**YN BRESENNOL**: Y Cynghorydd P M Matthews (Cadeirydd) oedd yn llywyddu

| **Y Cynghorydd(wyr)** | **Y Cynghorydd(wyr)** | **Y Cynghorydd(wyr)** |
|---|---|---|
| C Anderson | A C S Colburn | A M Cook |
| J P Curtice | P Downing | V M Evans |
| P Lloyd | K E Marsh | H M Morris |
| T H Rees | | |

**Swyddogion**

| | |
|---|---|
| A Gruffydd | Cyfreithiwr |
| R Jenkins | Swyddog Trwyddedu |
| Y Lewis | Uwch-swyddog Trwyddedu |
| S Woon | Swyddog y Gwasanaethau Democrataidd |

**Ymddiheuriadau am absenoldeb**
Y Cynghorydd(wyr): C L Philpott

86 **DERBYN DATGELIADAU O FUDDIANNAU PERSONOL A RHAGFARNOL.**

Yn unol â'r cod Ymddygiad a fabwysiadwyd gan Ddinas a Sir Abertawe, ni ddatganwyd unrhyw fuddiannau.

87 **COFNODION:**

**PENDERFYNWYD** cytuno bod cofnodion y Pwyllgor Trwyddedu Cyffredinol a gynhaliwyd ar 10 Chwefror 2017 yn gofnod cywir.

88 **GWAHARDD Y CYHOEDD.**

Gofynnwyd i'r Cabinet wahardd y cyhoedd o'r cyfarfod er mwyn iddo ystyried yr eitemau busnes a nodwyd yn argymhellion yr adroddiad ar y sail eu bod yn debygol o ddatgelu gwybodaeth eithriedig fel y nodir ym mharagraff gwahardd 12A Deddf Llywodraeth Leol 1972 fel y'i diwygiwyd gan Orchymyn Llywodraeth Leol (Mynediad i Wybodaeth) (Amrywiad) (Cymru) 2007 mewn perthynas ag eitemau busnes a nodir yn yr adroddiad.

Ystyriodd y Cabinet Brawf Budd y Cyhoedd wrth benderfynu a ddylid gwahardd y cyhoedd o'r cyfarfod ar gyfer yr eitemau busnes lle'r oedd Prawf Budd y Cyhoedd yn berthnasol fel y nodir yn yr adroddiad.

**PENDERFYNWYD** y dylid gwahardd y cyhoedd ar gyfer yr eitemau busnes canlynol.

## (SESIWN GAEËDIG)

89 **DEDDF LLYWODRAETH LEOL (DARPARIAETHAU AMRYWIOL) 1976 - GYRRWR BATHODYN DEUOL - JBH.**

Rhoddodd yr Uwch-swyddog Trwyddedu y manylion cefndir o ran achos JBH ac atebodd gwestiynau'r aelodau.

Gofynnodd Mr Warren, cyfreithiwr, gwestiwn i'r Swyddog, a ymatebodd yn briodol.

Amlinellodd JBH, ar y cyd â Mr Warren, cyfreithiwr, amgylchiadau'r honiad ac atebodd gwestiynau'r aelodau.

**PENDERFYNWYD** y dylid **ADNEWYDDU** Trwydded Yrru Cerbyd Hacni a Hurio Preifat JBH o dan Ddeddf Llywodraeth Leol (Darpariaethau Amrywiol) 1976 a chyflwyno llythyr rhybudd cryf i JBH.

90 **DEDDF CYFRIFOLDEBAU HEDDLUOEDD TREF 1847 - DEDDF LLYWODRAETH LEOL (DARPARIAETHAU AMRYWIOL) 1976 - CAIS I GANIATÁU TRWYDDED CERBYD HACNI A GYRRWR PREIFAT - LJP.**

Rhoddodd yr Uwch-swyddog Trwyddedu y manylion cefndir o ran achos LJP ac atebodd gwestiynau'r aelodau.

Esboniodd LJP amgylchiadau'r collfarnau ac atebodd gwestiynau'r aelodau.

Darllenodd y cyfreithiwr a oedd yn cynghori'r pwyllgor lythyr lliniaru a ysgrifennwyd gan LJP.

**PENDERFYNWYD** y dylid **CYMERADWYO** cais JP am Drwydded Yrru Cerbyd Hacni a Hurio Preifat o dan Adrannau 51 a 59 Deddf Llywodraeth Leol (Darpariaethau Amrywiol) 1976 a chyflwyno llythyr rhybudd cryf i LJP ynghylch ymddygiad yn y dyfodol.

91 **DEDDF CYFRIFOLDEBAU HEDDLUOEDD TREF 1847 - DEDDF LLYWODRAETH LEOL (DARPARIAETHAU AMRYWIOL) 1976 - CAIS I GANIATÁU TRWYDDED CERBYD HACNI A GYRRWR PREIFAT - DP.**

Rhoddodd yr Uwch-swyddog Trwyddedu y manylion cefndir o ran achos DP ac atebodd gwestiynau'r aelodau.

Amlinellodd DP amgylchiadau'r gollfarn/ardystiad ac atebodd gwestiynau'r aelodau.

**PENDERFYNWYD** y dylid **CYMERADWYO** cais DP am Drwydded Yrru Cerbyd Hacni a Hurio Preifat o dan Adrannau 51 a 59 Deddf Llywodraeth Leol (Darpariaethau Amrywiol) 1976.

## 92 DEDDF CYFRIFOLDEBAU HEDDLUOEDD TREF 1847 - DEDDF LLYWODRAETH LEOL (DARPARIAETHAU AMRYWIOL) 1976 - CAIS I GANIATÁU TRWYDDED CERBYD HACNI A GYRRWR PREIFAT - DAH.

Rhoddodd yr Uwch-swyddog Trwyddedu y manylion cefndir o ran achos DAH ac atebodd gwestiynau'r aelodau.

Gofynnwyd cwestiynau i'r cyfreithiwr a oedd yn cynghori'r pwyllgor ac atebodd yn briodol.

Esboniodd DAH amgylchiadau'r collfarnau ac atebodd gwestiynau'r aelodau.

**PENDERFYNWYD** y dylid:

1. **CYMERADWYO** cais DAH am Drwydded Yrru Cerbyd Hacni a Hurio Preifat o dan Adrannau 51 a 59 Deddf Llywodraeth Leol (Darpariaethau Amrywiol) 1976 ar yr amod bod DAH yn ymgymryd â dau asesiad meddygol Grŵp Dau;
2. Cyflwyno llythyr rhybudd i DAH ynghylch ymddygiad yn y dyfodol.

## 93 DEDDF LLYWODRAETH LEOL (DARPARIAETHAU AMRYWIOL) 1976 - GYRRWR BATHODYN DEUOL - SH.

Rhoddodd yr Uwch-swyddog Trwyddedu y manylion cefndir o ran achos SH.

Esboniodd SH amgylchiadau'r collfarnau ac atebodd gwestiynau'r aelodau a'r swyddogion.

**PENDERFYNWYD** y dylid cyflwyno llythyr rhybudd cryf ynghylch ymddygiad yn y dyfodol.

Daeth y cyfarfod I ben am 11.19 am

**CADEIRYDD**